# CYNLLUN DATBLYGU YSGOL BEDDGELERT

# 2015-2016

Seilir y cynllun hwn ar Fframwaith Arolygu Estyn.
Y mae i'r fframwaith honno dri chwestiwn allweddol:

CWESTIWN ALLWEDDOL 1: PA MOR DDA YW CANLYNIADAU?

- safonau
- lles

CWESTIWN ALLWEDDOL 2: PA MOR DDA YW'R DDARPARIAETH?

- profiadau dysgu
- addysgu neu hyfforddi
- gofal, cefnogaeth ac arweiniad
- amgylchedd dysgu

CWESTIWN ALLWEDDOL 3: PA MOR DDA YW ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH?

- arweinyddiaeth
- gweithio mewn partneriaeth
- gwella ansawdd
- rheoli adnoddau

**CYNLLUN DATBLYGU YSGOL BEDDGELERT**

Mae'r Cynllun Datblygu hwn yn ddogfen a luniwyd gan y Pennaeth mewn ymgynghoriad llawn gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol. Mae wedi ei seilio ar dystiolaeth ac ar arfarniad trwyadl o anghenion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae'n cymryd i ystyriaeth o flaenoriaethau sirol a chenedlaethol.

**CYNNWYS**

1. Amcanion yr Ysgol
2. Trosolwg o'r Ysgol – staffio, llywodraethwyr, canlyniadau.
3. Manylion Disgyblion a Threfniant dosbarthiadau
4. Materion cyllidol, gan gynnwys grantiau effeitiolrwydd ac amddifadedd.
5. Adolygiad CDY 2014-15
6 .Ffynonellau Blaenoriaethau CDY 2015-16
7. HMS a Datblygiad Proffesiynol Pellach
8. Amserlenni Monitro .

## AMCANION YR YSGOL

Galluogi pob plentyn i ddatblygu ei botensial yn llawn drwy ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w alluogi i ddod yn ddinesydd dwyieithog sy'n weithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol, ac yn ddysgwr gydol oes.

Cynnig i blant gwricwlwm cynhwysol sy'n eu hysgogi i ddysgu ac i wireddu eu potensial.

Sicrhau ethos a hinsawdd gartrefol a phositif yn seiliedig ar werthoedd cytun o gyfeillgarwch, parch, tegwch a gofal.
Rhoir bri ar featwybyddiaeth ac asesu ffurfiannol fel modd i hyrwyddo'r uchod yn llwyddiannus ac anogir bpb unigolyn yn yr ysgol, yn ddisgyblion a staff, i ystyried a dathlu eu cryfderau a'u harddulliau dysgu a'u galluoedd unigryw eu hunaiin.

Sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol cadarn lle gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu.

Meithrin cymdeithas wâr sy'n rhoi pwys ar werthoedd moesol a dyngarol, gan ddatblygu hunan-barch a goddefgarwch tuag at eraill.

Cynnal a chodi safonau cyflawniad disgyblion ym mhob maes cwricwlaidd yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Addysg Grefyddol

Bod yn ysgol flaengar sydd yn symud ymlaen yn barhaus er mwyn sicrhau'r gynhaliaeth a'r adddysg orau i bob disgybl a'u teuluoedd.

Yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod, datblygu gallu'r disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Sicrhau y defnyddir dulliau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau ymchwilgar a bywiog, y gallu I gwestiynu a thrafod yn rhesymegol, i ddatrys problemau real ac i weithio'n annibynnol.

Cydweithio'n agos gyda'r cartref i sicrhau cydweithrediad effeithiol i sicrhau datblygiad pob disgybl.

Darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a phrofiadau addysgol cyfoethog a fydd o gymorth i ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgybli

**<u>TROSOLWG O'R YSGOL 2015-16</u>**

**<u>Staff dysgu parhaol yr Ysgol</u>**

| | |
|---|---|
| Mrs Catrin Gwilym | Pennaeth/Athrawes Blwyddyn 3,4,5 a 6 |
| Mrs Sian Ephraim | Athrawes y Cyfnod Sylfaen |
| Mrs Branwen Davies | Athrawes Lanw |

**<u>Staff Ategol</u>**

**<u>Gweinyddesau a Chymorthyddion</u>**

| | |
|---|---|
| Miss Debbie Jones | Cymhorthydd dosbarth Cyfnod Sylfaen(Rh/a) |
| Miss Haf Owen | Cymhorthydd dosbarth CA2/ Cymhorthydd ADY |

**<u>Goruchwylwyr Clwb Brecwast</u>**

Mrs Catrin Gwilym
Miss Ann Willimas
Mrs Belinda Pritchard

**<u>Goruchwylwyr Amser Cinio</u>**

Mrs Dilys Arnold –( 3 diwrnod)
Miss Debbie Jones ( 2 ddiwrnod)

**<u>Staff Gegin</u>**

Miss Ann Williams

**<u>Staff Gofalu a Glanhau</u>**

Mrs Belinda Pritchard

**Llywodraethwyr Presennol yr ysgol**
**Y Corff Llywodraethol**

| **Swyddogaeth** | **Enw** |
|---|---|
| Cadeirydd | Mrs Delyth Wyn Gruffydd |
| Clerc | Meleri Humphreys |
| Awdurdod Addysg | Mr Alwyn Gruffydd<br>Mr Gareth Williams |
| Athrawon | Mrs Catrin Gwilym<br>Mrs Sian Ephraim |
| Cyfetholedig | Mrs Delyth Wynne Gruffydd |
| Rhieni | Mrs Aine Teasdale<br>Mr Johan Cok<br>Mr Dean Hinde |
| Staff Ategol<br>Cymunedol | Ms Ann Williams<br>June Jones<br>Arwyn Owen |

| **Llywodraethwyr** | **Cyfrifoldeb** |
|---|---|
| Delyth Gruffydd | Anghenion Arbennig<br>Cyllid |
| Aine Teasdale | Amddiffyn Plant |
| Gareth Williams | Is Gadeirydd<br>Panel Cwricwlwm<br>Rheoli Perfformiad<br>Penodi Staff |
| Alwyn Gruffydd | Cwynion<br>Cyllid<br>Penodi Staff<br>Adeiladu |
| Johan Cok | Iechyd a Diogelwch |

**Targedau a Chanlyniadau Asesiadau Anstatudol**

(gweler adroddiad yr ysgol am ddadansoddiadau /canfyddiadau manwl data diwedd Cyfnod Allweddol, Data Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol.

**Cyfnod Sylfaen 2013-14 a 2014-15**

**Canrannau disgyblion ar Ddeilliant 5+**

| | **2013-14** | | | **2014-15** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Targed Deilliant 5+** | **Canlyniad** | **Gwahaniaeth** | **Targed Deilliant 5+** | **Canlyniad [%]** | **Gwahaniaeth** |
| Iaith a Chyfathrebu | 100% | 100% | Cyfartal | 0 plentyn | 0 plentyn | 0 |
| Rhifedd | 100% | 100% | cyfartal | 0 plentyn | 0 plentyn | 0 |
| Personol a chymdeithasol | 100% | 100% | cyfartal | 0 plentyn | 0 plentyn | 0 |

**Canrannau disgyblion ar Ddeilliant 6+**

| | **2013-14** | | | **2014-15** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Targed Deilliant 6+** | **Canlyniad** | **Gwahaniaeth** | **Targed Deilliant 5+** | **Canlyniad [%]** | **Gwahaniaeth** |
| Iaith a Chyfathrebu | 50% | 50% | cyfartal | 0 plentyn | 0 plentyn | 0 |
| Rhifedd | 25% | 25% | cyfartal | 0 plentyn | 0 plentyn | 0 |
| Personol a chymdeithasol | 50% | 50% | cyfartal | 0 plentyn | 0 plentyn | 0 |

**% deilliant 5 2016 ymlaen**

| | **2016** | | | **2016** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bech 100% | Merch .100% | Pawb 100% | Bech. 100% | Merch. 100% | Pawb 100% |
| **Iaith a Chyfathrebu** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | 100 |
| **Rhifedd** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | 100 |
| **Personol/ cymdeithasol** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** |
| **DPC** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | 100 |

**Cyfnod Allweddol 2 – canrannau disgyblion ar lefel 4 neu uwch**

| | 2013-14 | | | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Targed** | **Canlyniadau** | **Gwahaniaeth** | **Targed** | **Canlyniadau** | **Gwahaniaeth** |
| Cymraeg | 50 | 50% | cyfartal | 100 | 100 | cyfartal |
| Saesneg | 50 | 100% | +50% | 100 | 100 | cyfartal |
| Mathemateg | 50 | 50% | Cyfartal | 100% | 100 | cyfartal |
| Gwyddoniaeth | 100 | 100% | Cyfartal | 100 | 100 | cyfartal |

**Lefel 5**

| | 2013-14 (2 ddisgybl) | | | 2014-15 (I disgybl) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Targed** | **Canlyniadau** | **Gwahaniaeth** | **Targed** | **Canlyniadau** | **Gwahaniaeth** |
| Cymraeg | 50% | 50% | cyfartal | 0 | 0% | 0% |
| Saesneg | 50% | 50 | cyfartal | 0 | 0 | 0 |
| Mathemateg | 50% | 50% | cyfartal | 0 | 0 | 0 |
| Gwyddoniaeth | 50% | 50% | cyfartal | 0 | 0 | -0 |

**<u>Targedau %Lefel 4+ 2016-18</u>**

| | 2016 | | | 2017 | | | 2018 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | M | **Pawb** | B | M | **Pawb** | B | M | **Pawb** |
| **Cymraeg** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** |
| **Saesneg** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** |
| **Math** | 100 | 50 | **66.6** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** |
| **Gwydd** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** |
| **DPC** | 100 | 50 | **66.6** | 100 | 100 | **100** | 100 | 100 | **100** |

**MANYLION DISGYBLION / TREFNIADAETH DOSBARTHIADAU A STAFFIO**

Mae 1 disgybl wedi dechrau yn llawn amser yn y Cyfnod Sylfaen ym mis Medi 2015 gyda 3 disgybl hefyd yn cychwyn yn y Meithrin, sydd ychydig yn is na'r hyn a ragwelwyd ar gyfer eleni. Bydd bellach 8 disgubl llawn amser a 3 Meithrin sydd yn gyfanswm o 11. disgybl yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen a 16 disgybl yn CA2.

Daw pob disgybl o gartrefi y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Mae presenoldeb wedi aros yn gyson o gwmpaswed cynyddu'n raddol dro y blynyddoedd diwethaf. Mae presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn cymharu'r ffafriol iawn gydag ysgolion y teulu data craidd yn ogystal ag yn lleol a chenedlaethol. Yr ysgol yn gyson yn y chwartel 1af.

Mae safonau ac ethos yr ysgol yn gadarnhaol iawn. Llwydda'r ysgol i gyflwyno Cymraeg a Saesneg fel prif ieithoedd yn CA2. Mae'r disgyblion bron yn ddieithriad yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol.

**Niferoedd Disgyblion sy'n derbyn Prydau ysgol am ddim**

Mae nifer y disgyblion sydd â'r hawl i gael cinio am ddim Medi 2015 yn 5 sef 20.8% o ddisgyblion llawn amser yr ysgol. Cynydd o 3% ar ffigyrau diwedd 2014.

**Presenoldeb disgyblion dros y flwyddyn addysgol ddiwethaf -**
**96.1%**

.

Presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y chwarter 1 ers dros 3 blynedd bellach.

## ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

| CAMAU | NIFEROEDD |
|---|---|
| **Cymorth gan yr ysgol** | 2 |
| **Cymorth gan yr ysgol a mwy** | 1 |

Trefn Gyllido ADY:
Gwariant staffio £**6000** **-** Cymhorthydd allan o gyllideb yr ysgol. Grantiau GAD a Gwella Addysg yn cyfrannu tuag ato.
Gwybyddiaeth a Dysgu £ 1 000
**Cyfanswm gwariant £ 7000**
Mrs Sian Ephraim yw Cydlynydd ADY,
Miss Haf Owen sydd chyfrifoldeb am ADY am 15 awr yr wythnos sydd yn cefnogi unigolion yn rheolaidd tu allan i'r dosbarth ac yn y dosbarth. Mae grant Amddifadedd £2100 wedi ei ddynodi i'r ysgol am y flwyddyn ariannol 2015-16 - mae'r arian wedi ei glustnoid eleni yn mynd tuag at gyflogi cymhorthydd ar gyfer cyflogi cymhorthydd am 15 awr sydd yn golygu bod grwpiau addas yn cael eu targedu drwy'r ysgol. Cost hyn i'r ysgol yw £6000

TREFNIANT Y DOSBARTHIADAU

MEDI 2015

| Athrawes | M | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mrs S Ephraim | 3 | 1 | 5 | 2 | | | | | 11 |
| Mrs Catrin Gwilym | | | | | 1 | 3 | 6 | 6 | 16 |
| | | | | | | | | | 27 |

IAITH GARTREF/LAFAR Y DISGYBLION

| | Sy'n siarad Cymraeg gartref | Nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl yn y Gymraeg | Sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl | Na allant siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| 10 - 11 oed | 1 | 4 | | |
| 9 - 10 oed | 1 | 5 | | |
| 8 - 9 oed | | 3 | | |
| 7 - 8 oed | | | | 1 |
| 6 - 7 oed | | 2 | | |
| 5 - 6 oed | | 1 | 4 | |
| 4 - 5 oed | | | | 1 |
| Meithrin | | 1 | | 3 |
| CYFANSWM | 2 | 16 | 4 | 4 |

# MATERION CYLLIDOL

RHAGOLWG CYLLIDOL YSGOL GYNRADD BEDDGELERT 2015-17

RHAGOLYGON NIFEROEDD PLANT

MEDI 2015-2017

| Blwyddyn | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | **CYF** | **Dyraniad gyllidol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015/2016 | 2 | 7 | 2 | 1 | 4 | 5 | 6 | 1 | **28** | **£900** |
| 2016/2017 | 4 | 2 | 7 | 2 | 1 | 5 | 7 | 2 | **30** | **£900** |

CYLLIDO'R CYNLLUN

Disgrifir prif gynllun gwariant yr ysgol ar gyfer eleni yn y gyllideb derfynol.
Oddi mewn i'r cynllun hwnnw adnabuwyd symiau i gwrdd a gofynion cynnal darpariaeth yr ysgol am y flwyddyn. Mae'r rhagolygon cyllid yn dangos tueddiadau tebygol dros y tair blynedd nesaf. Dros y cyfnod hwnnw rhagwelir y bydd angen:

| | |
|---|---|
| Cronfa wrth gefn ar gyfer dibenion penodol | £6,037 tuag at y gyllideb 2015-2016 i gadw cymhorthydd rhan amser.<br>£1000 tuag at gosta llanw i rhyddhau athrawon i ymweld ac ysgolion ac ar gyfer hyfforddiant .<br>£1000 at adnoddau i ddatblygu Llythrennedd a Rhifedd.<br>Cyfanswm = £8037 |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | £2805 |
| Cyfanswm | £10 842 |

Neilltuwyd y swm a nodir ar gyfer gweithredu blaenoriaethau y Cynllun Gwella hwn o'r ffynonellau a nodir: Byddwn yn defnyddio Grantiau GAD, GEY , Llythrennedd a'r Grant Y Gymraeg tuag at y blaenoriaethau. Gweler y Blaenoriaethau

**Ymrwymiad Llywodraethol a Chyllidol i flaenoriaethau'r CDY**

| **Blaenoriaethau i'w datblygu** | **Dyddiad Arfarnu** | **Cost** |
|---|---|---|
| 1a )Codi Safonau Rhifedd i Rhagorol ar draws yr ysgol gyda ffocws ar wella gallu disgyblion i ddefnyddio sgiliau rhif i ddatrys problemau yn y Cyfnod Sylfaen<br>1b) Cynllunio a herio disgyblion Mwy abl a Thalentog . (Argymhelliad Arolwg 2015) | Agweddau yn dymhorol | |
| 2a) Addysgu - Cynnal a chodi safonau addysgu a dysgu i rhagorol | Agweddau yn | |

| | | |
|---|---|---|
| ar draws yr ysgol.<br>2b) Gwella dealltwriaeth athrawon o gyrhaeddiad disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ( argymhelliad Arolwg 2015) | dymhorol | |
| 3. Profiadau Dysgu– Cynllunio yn effeithiol ar gyfer yr ardal tu allan fel adnodd dysgu i'r Cyfnod Sylfaen - sicrhau ei fod yn cael ei addysgu i safon uchel.<br>( argymhelliad arolwg) | Agweddau yn dymhorol | ysglion)<br><br>Cyfeillion yr ysgol<br><br>Grantiau... |
| 4. Parhau i ddatblygu ac ehangu rol cydlynwyr pwnc staff a Llywodraethwyr newydd er mwyn ategu tuag at safonau'r ysgol | Agweddau yn dymhorol | |
| 5. Ymateb i bryderon Iechyd a Diogelwch - arwynebedd yr iard chwarae yn anwastad<br>( argymhelliad arolwg) | Agweddau yn dymhorol | Yr awdurdod i roi cost<br>Adran Eiddo |
| Cyfanswm y cyllid a ddynodwyd<br>Grantiau a chymorth cyfeillion<br>**Cyfanswm gwariant o gyllid ysgol** | | |

**Manylion Gwariant Arfaethedig**

**Lwfans y Pen - £3000**

| **Maes gwariant** | **Manylion** | **Swm** |
|---|---|---|
| Adnoddau cyffredinol dosbarthiadau | £300 i bob dosbarth | £600 |
| TGch | *Ipads mini ychwanegol 4– i ddod a chyfanswm yr ysgol i 30 - gwariant dymunol , nid angenrheidiol ( Cyfeillion i gyfrannu )*<br>Gliniaduron newydd - 2 ddosbarth<br>Cyfeillion yr ysgol<br>Bwrdd Gwyn Rhyngweithol i'r neuadd – am ddim ( ail law ) £520 cynnal i osod | £1200<br><br>£800<br><br>£520 – ( Cyfeillion yr ysgol i gyfrannu |
| AAA – ADY a Abl a Th | Adnoddau cyffredinol,<br>NACE | £200<br>£80 |
| Rhifedd | Adnoddau cyffredinol – datrys problemau | £500 |
| Addysgu | Ymweld ac ysgolion – arian athro Llanw<br>Hyfforddiant Llythrennedd corfforol | £300 |
| Datblygu ardal tu allan | Canopy - ffens<br>Arian Grant - Cyfeillion I gyfrannu £1000 tuag at y gost.<br>Adnoddau cyfffredinol | £5,000 – arian ceisiadau grant - - cyfeillion<br>£500 |
| Costau llungopïo | | £820 |
| Cyfanswm Gwariant wedi ei | | **£3000** |

| | | |
|---|---|---|
| glustnodi | | |
| Gwariant heb ei glustnodi | | **£5000+ arian am TGCH** |
| **Incwm** | Cyfraniad Cyfeillion yr ysgol | £3500 |
| **Cyfanswm** | | **£ 3,500** |

**GRANTIAU 2015-16**

| **Gran Gwella Addysg** | **GAD** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| £6,242<br>£1,476<br>Cyfanswm =<br>£7,718 | £2,100 | **£9818** |

**Grant Amddifadedd (GAD)**
Bydd yr arian yma yn cael ei wario eleni tuag at gyflogi cymhorthydd ADY 15 awr i sicrhau'r un cynnydd yng Ngyfnod allweddol 2 gyda grwpiau targed. Hefyd bydd cyfraniad o'r arian yn mynd tuag at dddigyblion abl a thalentog sydd yn sicrhau cynnydd mewn mathemateg drwy alluogi cynllunio a gweithgareddau heriol .

**Grant Gwella Addysg**
Bydd yr arian yma yn cael ei wario tuag at gyflogi cymhorthydd ADY I sicrahu yr un cynnydd eto eleni yn y disgtyblion sydd mewn grwpiau targed. Bydd cyfraniad ohono yn mynd tuag at hyfforddiant penodol mewn Rhifedd, a datblygu medrau y disgyblion cyfnod sylfaen yn y dosbarth tu allan er mwyn cynnal a chodi safonau da a rhagorol yr ysgol.

**Adolygu Gweithrediad CDY 2014-15**

**Ysgol Beddgelert**

**Adroddiad ar gynnydd y Cynllun Datblygu 2014-2015**

**Cwestiwn Allweddol 1**

CWESTIWN ALLWEDDOL Pa mor dda yw'r deilliannau?
***BLAENORIAETH 1:*** *Cyfraniad at godi safonnau*
**Y FFramwaith Llythrennedd**
**Darparu a Datblygu sgiliau Llythrennedd ar draws y Cwriwlwm gyda ffocws penodol ar ddatblygu Saesneg.**.

| | **Tystiolaeth** |
|---|---|
| Rydym wedi dadansoddi profion darllen a sillafu pob un disgybl o Fl3 i Fl6. Wedi adnabod disgyblion sydd yn tan gyrraedd a'u cyflwyno i ddarllen dan arweniad a dyddiadur sillafu dyddiol. Cyswllt agos iawn gyda'r rhieni.<br>Rhai rhieni yn gefnogol iawn yn darllen ac yn dysgu'r geiriau yn rheolaidd. Wedi rhoi arweniad i'r rhieni drwy fynd dros y dyddiadur darllen. Mwyafrif o'r rhieni erbyn hyn yn gefnogol o'r drefn ac yn cefnogi eu plant.<br>Arweniad wedi ei roi i'r cymhorthyddion ar HMS - Mis Medi I sicrhau fod y disgyblion yn derbyn y gefnogaeth orau bosib.<br>Amserlen yn weithredol, gyda disgyblion yn cael eu tynnu allan yn rheolaidd am gyfnodau o 10 munud i 15 munud I ddarllen dan arweniad a dyddiadur sillafu.<br>Cymhorthyddion yn cadw cofnod o gynnydd. Profion wedi ei cynnal dechrau tymor y Gwnanwyn.<br>**Bron pob disgybl wedi gwneud cynnydd yn eu darllen a'i sillafu.** | Ffeil Llythrennedd yn nodi canlyniadau disgyblion.<br>Incerts<br>Llyfrau disgyblion<br>Cofnodion darllen rheolaidd<br>Profion sillafu |
| Cyfnodau rheolaidd o ddarllen tawel pob bore, cyfnodau rheolaidd o ddarllen grwp. **Tystiolaeth o ddisgybl Bl6 wedi gwneud cynnydd da yn eu darllen. Wedi darllen llawer o nofelau sydd yn haddas I'w hoed. Gallu trafod y storiau yn dda.** Wedi buddsoddi mewn nofelau saeneg ar gyfer y dosbarth.<br>Llawer o gyfleoedd I ddarllen yn ystod yr wythnos drwy gyfnodau gyda gwirfoddolwyr. Rheini yn cadw cofnod o ddatblygiad pob disgybl. **Bron pob disgybl wedi gwneud cynnydd yn eu darllen saesneg. Rhai disgyblion wedi gwneud cynnydd da iawn yn ystod y tymor. .** | Cofnodion darllen rheoliadd pob disgybl.<br>Incert<br>Ffeil Llythrennedd – canlyniadau profion.<br>Tracio cynnydd. |
| Er mwyn codi safon sillafu pob disgybl , cynhelir profion sillafu yn wythnosol fel rhan o waith cartref. Rhannwyd llyfryn o | Ffeill Llythrennedd – |

| | |
|---|---|
| 100 o eiriau cyntaf I bob disgybl yn CA2 I fynd adref. , gofynwyd trwy lythry I'r rhieni gefnogi 'r disgyblion i ddysgu'r geiriau ar gyfer y profion yn ol gofynion yr wythnos. **Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y tymor. Gwelir y cynnydd mwyaf yn y disgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth dyddiol. Mae sillafu disgyblion Bl3 – 6 yn datblygu'n dda.** | canlyniadau profion INCERT<br>Gwaith disgyblion |
| Cynhelir sesiynnau o ymarfer ffonics drwy gynllun THRASH o bryd I'w gilydd. Bydd angen I ni wneud mwy o ddefnydd a sicrhau ein bod yn dilyn amserlen ffurfiol ar gyfer ymarfer er mwyn gallu gweld os yw'n helpu gyda sillafu. Rydym yn arddangos y mat ffonics yn fawr ar y wal ac o bryd i'w gilydd byddwn yn troi ato.<br>**Wrth graffu drwy lyfrau'r disgyblion, gwelir fod pob plentyn wedi gwneud cynnydd ers dechrau tymor ac yn dechrau datblygu'n dda I ysgrifennu yn annibynnol. Ceir amrywiaeth o ffurfiau ymestynnol gan y disgyblion 5 a 6 megis, llythyr, disgrifiad , portread, erthygl papur newydd a chyflwyniad ar Ailgylchu. Rydym wedi asesu y darnau estynedig ac yn gallu rhoi syniad o lefel a targedau ar gyfer gwella. Ceir datblygiad yn ngwaith disgyblion bl 3 a 4, maent yn fwy parod I ysgrifennu darnau byr disgrifiadol drwy ddefnyddio ansoddeiriau. Rydym yn parhau I ddatblygu BL 3 a4 I ddod yn fwy annibynnol wrth ysgrifennu darnau dychmygol.** | Adnoddau THRASH<br>Llyfrau'r disgyblion<br>Proffiliau unigol<br>Ysgrifennu Estynedig. |
| Rydym yn parahu I ddatblygu ein cynlluniau o dymor I dymor drwy sicrhau fod gofynion y Fframwaith Llythrennedd yn rhan ohonynt. Erbyn hyn mae 'r ddau thema diweddar wedi ei hadolygu gyda cynnwys y Ffrawmaith ynddynt. Rydym wedi mapio'r ffurfiau ysgrifennu i'r 3 tymor.<br>Rydym wedi monitro'r cynlluniau, tymor hir, canolig a byr. Rydym yn parhau I'w datblygu ac yn teimlo ein bod yn ail adrodd y cynlluniau yn y cynlluniau tymor byr.<br>Rwyf wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant Cynllunio 3/2/15 .Rydym angen arweniad pellach ar gynllunio tymor byr. Byddwn yn trafod hyn gyda ymgynghorydd her er mwyn cael gweld arfer dda gan ysgol tebyg.<br>Rydym yn datblygu i ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, ac yn cynnwys rhain yn ein cynlluniau tymhorol. Gwelir tystiolaeth o ysgrifennu drwy Hanes , Daearyddiaaeth a Gwyddoniaeth.<br>Wrth fonitro'r cynlluniau fe welir erbyn hyn sawl cyfle i ddatblygu ysgirfennu'n estynedig ac yn annibynnol yn ein cynlluniau. Hyn yn fwy amlwg gyda disgyblion 5 a 6 .<br>Ceir peth cynllunio ar gyfer disgyblion Abl a thlentog, yn tueddu o roi yr un dasg ond fod y disgwyliadau yn uwch ar gyfer y disgyblion yma. MPLL wedi ei wahaniaethu. **Gwelir drwy graffu ac wrth edrych trwy proffiliau unigol y disgyblion fod tystiolaeth o ysgrifennu estynedig o safon uchel gan rai disgyblion ym Ml5**. **Dengys fod cynnydd I'w weld yn ngwaith** | Cynlluniau yn ddiddorol ac yn cynnwys gofynion y Fframwaith drwy sicrhau addysgu a dysgu o'r safon uchaf.<br><br>Ysgrifennu estynedig o safon dda yng ngwaith y disgyblion. |

<table>
<tr><td>disgybl BL6 yn dilyn sefydlu’r ‘BIG WRITING’ ond fod angen iddi dacluso ei llaw ysgrifen a sicrhau gwell canran presenoldeb. Gwelwyd tystiolaeth o lefel 4 cadarn a tueddiadau o lefel 5 yn ngwaith y disgybl Bl6. Erbyn 2015 – 2016 ceir 6 disgybl , bydd 33% o’r disgyblion yn sicr o gyrraedd lefel 5. Gyda parhau I roi cefnogaeth rheolaidd ar ddatblygu Saesneg , rydym yn hyderus y bydd 100% o’r disgyblion yn cyrraedd lefel 4 +gan gofio fod 33.3% o’r disgyblion ar gofrestr ADY yn Gweithredu gan yr ysgol a 16.6% yn gweithredu gan yr ysgol a Mwy. Ceir tystiolaeth o waith ysgrifenedig annibynnol da gan Blynyddoedd 3 a 4 , lle mae’r disgyblion yn defnyddio ansoddeiriau, agoriadau gwahanol ac yn dechrau ysgrifennu yn fwy aeddfed. Sylwer fod angen I’r disgyblion ddatblygu ei sgiliau llaw ysgrifen er mwyn cynhyrchu gwaith twt a dealladawy.<br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda’r panel cwricwlwm i edrych ar waith ysgrifennu Saesneg a gofynwyd cwestiynnau heriol ynglyn a safonau a thargedau. Gwelir yr adroddiad.</td><td></td></tr>
<tr><td>Rydym wedi cyflwyno y BIG Writing I’r LLywodraethwyr drwy ddangos yr adnoddau yr ydym yn eu defnyddio. Rydym mewn nosweithiau rhieni wedi trafod targedau pob disgybl ac yn dangos yr adnoddau sydd yn yr ysgol I’w cefnogi.<br>Rydym wedi rhoi arweniad drwy lawlyfr ar ddarllen I’r rhieni ac wedi rhoi cefnogaeth I’r rhieni ar y dyddiadur sillafu.<br>Bwriad yw cynnal noson Gwricwlwaidd tymor y Gwanwyn yn cyflwyno Ysgrifenu ‘Big Writing’ drwy Lythrennedd i’r rhieni. Dyddiad i gadarnhau.<br>Gwelir fod effaith y rhaglenni ymyrraeth a’r cynllun BIG Writing wedi galluogi I fwyafrif oedd yn tan gyrraedd I wella yn eu gwaith ysgrifenedig. Gwelir hefyd fod y disgyblion gorau wedi aeddfedu yn eu gwaith ac wedi gallu cynhyrchu gwaith o safon uchel. Byddwn yn parhau I weithio ar ddatblygu ysgrifennu, drwy fonitro ac asesu gwaith y disgyblion , gwelir fod angen I’r rhan fwyaf o’r disgyblion ddatblygu eu llaw ysgrifen a’r disgyblion abl a thalentog I ysgrifennu yn fwy estynedig eto.</td><td>Proffiliau Unigol<br>Llyfrau disgyblion<br>Incert<br>Targedau Unigol</td></tr>
<tr><td>Camau I’w datblygu:<br>Datblygu sillafu pob disgybl sydd yn derbyn cefnogaeth fel eu bod yn cynnwys gwaith ymestynnol cywir erbyn diwedd y flwyddyn.<br>Datblygu llaw ysgrifen mwy aeddfed<br>Cyflwyno noson Gwricwlaidd Llythrennedd I’r rhieni.<br>Blynyddoedd 3 a4 I gynhyrchu mwy o waith ysgrifenedig o safon uchel mewn ffurfiau gwahanol yn drawsgwricwlaidd.</td><td></td></tr>
</table>

CWESTIWN ALLWEDDOL 1

**Blaenoriaeth 2**

Cyfraniad at godi safonnau

Rhifedd

Sicrhau fod yr addysgu a'r dysgu gorau ar gyfer codi safon rhifedd ar draws yr ysgol, drwy wella ein dealltwriaeth o Ymresymu

| CAMAU I'W CYMRYD | Tystiolaeth |
|---|---|
| Rydym wedi cynhyrchu polisi newydd ar gyfer Mathemateg drwy arweniad ymgynghorydd Carol Ayres.<br>**Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o gynnwys y polisi**.<br>Rydym wedi rhannu'r wybodaeth ac wedi rhoi arweniad ynglyn a'r gwahanol dduliau a'r strategaethau sydd ynghlwm a Mathemateg I'r cymhorthyddion a'r athrawon dysgu.<br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda panel cwricwlwm yn trafod y polisi drwy ddangos y llawlyfr rhieni a drwy ddangos adnoddau sydd yn yn yr ysgol I gefnogi Mathemateg. Byddwn yn mabwysiadu'r polisi yn y cyfarfod Llywodraethwyr nesaf Mawrth 17eg.<br>Wrth fonitro Mathemateg yn ystod y tymor , gwelwyd fod tystiolaeth o ofynion y polisi yn dechrau cael effaith ar yr addysgu. Gwelwyd tystiolaeth mewn cynlluniau gwaith fod yr strategaethau yn cael ei cyflwyno ac wrth graffu drwy lyfrau, gwelir fod disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn fwy hyderus wrth ymdrin ac adio, tynnu, rhannu a lluosi. Gwelir tystiolaeth yn eu llyfrau o flynyddoedd 5 a 6 yn defnyddio eu gallu I adio , tynnu, lluosi a rhannu drwy weithgareddau Ymresymu, fel y mataiu mathemateg neu ddatrys problem. Mae blynyddoedd 3 a 4 yn dechrau defnyddio rhain mewn ffyrdd symlach. Rydym wedi rhoi pwyslais fel rhan o waith cartref wythnosol I ddysgu'r teuluoedd tablau. Mae rhai disgyblion wedi gwneud hyn yn dda. Ond mae angen I bob disgybl eu dysgu'n gywir fel eu body n gallu ateb y cwestiynnau yn gynt.<br>Gwelir tystiolaeth wrth graffu drwy lyfrau'r plant y cyfnod sylfaen eu body n dechrau cofnodi ar bapur ac yn dod I adnabod rhifau a'u gwerth. Gwelwyd tystiolaeth o waith arian effeithiol iawn, gwaith mesur a casglu data lle roedd plentyn yn gweithio'n annibynnol ar dasg. Gwnaethpwyd arfarniad sydyn ar lafar gyda 'r plant yn Cyfnod Sylfaen yn eu holi am Rhifedd. Cafwyd ymateb dda gan Flwyddyn 1 a Derbyn. Dywedodd pob un plentyn eu bodyn mwynhau mathemateg. Mwyafrif o'r plant yn gallu ysgrifennu rhifau 1-10 yn y Derbyn, Bl1 yn trafod y gwaith gwahanol maent wedi ei wneud gyda Siapiau, arain, casglu data, a mesur a gwaith ymarfer ar y cyfrifiadur. Ychydig roedd y plant yn gallu ddweud am chwarae gemau rhif. Mae'r athrawes yn derbyn cyngor gan athrawes ymgynghorol am y mathau o | Polisi Mathemateg<br>Cofnodion Nos Fawrth<br>Amserlen gweithredu<br>Adroddiadau Monitro<br>Adroddiad Cyfarfod Cwricwlwm<br>Llyfrau disgyblion<br>Portfolio Mathemateg<br>Proffil Rhifedd<br>Proffil unigol lefel 5 |

| | |
|---|---|
| weithgareddau datrys problem a gemau, lle mae'r plant yn chwarae a gweithio'n fwy annibynnol. Nid oes plentyn ym mlwyddyn 2 yn yr ysgol. Gwaethpwyd yr un peth gyda disgyblion CA2 drwy ofyn cwestiynnau iddynt am Rhifedd. Roeddynt yn gallu enwi y mathau o weithgareddau sydd yn ymweud a rhifedd maent wedi ei wned yn ystod y flwyddyn . Roedd ei sgiliau rhifedd yn datblygu'n dda, bl3 yn dawelach wrth ymateb o'I gymharu I BL4,5 a 6.<br><br>Wrth arsylwi ar wers mathemateg– roedd yr addysgu yn dda, yr athrawes yn ymwybodol o ofynion y cwricwlwm ac yn dilyn cynlluniau Carol Ayres. Llawer o waith mathemateg pen day n gofyn cwestiynnau ar plant yn ymateb ar lafar neu ar y byrddau gwyn. Yr hyn sydd angen ei ddatblygu yw cael y plant I weithio ar dasgau mwy ymarferol, eu hunain, yn lle fod yr athrawes yno gyda hwy. Rydym yn y broses o ddatblygu hyn drwy dderbyn cyngor gan athrawes ymgynghorol . | |
| Defnyddir cynlluniau Carol Ares fel y cynlluniau tymor canolig , yn dilyn sawl hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Mae'r cydlynydd wedi rhannu'r cynlluniau ar draws yr ysgol. Ac mae'r athrawon yn weddol hyderus o'i cynnwys. Rydym wedi mynd trwy'r adrannau gan roi pwyslais i'r athrawon feddwl am weithgareddau cyffrous, heriol i'r disgyblion. Rydym yn parahu i ddefnyddio'r syniadau a'r gweithgareddau oedd yn ein cynlluniau 2013-2014 gan eu bod wedi cael eu canmol gan Estyn 2013. Ond yn dilyn arweniad gan athrawes ymgynghorol drwy rhaglen Gymorth, . edrychwyd ar y posibilrwydd o ddod a'r ffrawmaith Rhifedd i'n cynlluniau. Gwelir cynllun Gweithredu ac adroddiad.<br><br>Ceir cynllun manwl yn CA2 am yr wythnos ar 3 lefel o haen uchaf, haen ganol a haen iaf gan gynnwys disgyblion ADY hefyd. Yn y cynlluniau yma rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu maes /sgilarbennig a hynny yn ymarferol, drwy gemau neu drwy osod tasg estynedig i'r disgyblion.<br>Rydym yn y broses o fapio'r ffrawmaith i gyda fynd a gweithgareddau Rhifedd sydd yn drawsgwricwlaidd.<br><br>Cyfnod Sylfaen - Gwneir defnydd cyson o gynlluniau Carol Ayres, ond yn tueddu o ddewis meysydd sydd yn cyd fynd a 'r thema. Yna yn ei drosglwyddo i'r cynllun thema.<br>Ers Ionawr 2015 , ceir cynllun gweithgareddau mathemateg wythnosol\bythefnos – dibynnu ar y maes. Mae'r weithgareddau wedi eu cynllunio ar gyfer y tri oedran sef Meithrin, Derbyn a BL1 gan gynnwys gweithgareddau i ddatblygu sgiliau o'r cwricwlwm ac o'r fframwaith. Cyfeirir at nod y weithgaredd ac at MPLL.Ceir llawer o | Cofnodion Cyfarfodydd Nos Fawrth.<br>Cynlluniau canolig/byr.<br>Mapio'r Fframwaith<br><br>Adroddiadau Monitro<br>Adroddiadau monitro craffu ar lyfrau<br>Adroddiadau Asesu ar gyfer dysgu<br>Adroddaid gan banel Cwricwlwm<br>Adroddiad y Pennaeth tymhorol.<br>Gwaith disgyblion<br>Llyfrau mawr lawr y Cyfnod Sylfaen |

| | |
|---|---|
| weithgareddau ymarferol ar y cyd ac yna gweithgreddau sydd yn rhoi cyfleoeedd i ddatblygu sgiliau trwy gemau. Syml. Yn ychwanegol maent yn cynnwys gweithgareddau eraill i gyfoethogi yn yr ardaloedd megis cyfri ac amcangyfri yn y tywod.<br>Pan fydd yn caniatau yn y thema ,ceir gweithgareddau mathemategol trwy'r thema megis Trin data , ceir gweithgareddau sydd wedi ei gwahaniaethu o ran oedran a car adegau ceir gweithgareddau fwy ymestynnol i herio unigolion.<br><br>Rydym yn y broses o ail edrych eto ar ein cynlluniau yn dilyn y cwricwlwm newydd Medi 2014. Rydym yn cynllunio gweithgareddau trawsgwricwlaidd ar gyfer pob blwyddyn. Angen mwy o arweniad ar hyn.<br><br>Drwy arweniad y cydlynydd , rydym wedi dechrau mapio'r fframwaith yn drawsgwricwlaidd. Rydym wedi buddsoddi mewn cynllun Lets Think ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Bl3 Came maths ar gyfer disgyblion 4,5 a 6. Arian GAD/GEY . Gwelwyd peth tystiolaeth o ddefnyddio'r cynllun wrth ymdrin a chyfeirnod map. Ceir llawer o waith ymarferol a cydweithio gyda'i gilydd. Byddwn yn parahu i weithio drwy'r cynlluniau gan obeithio y bydd cynnydd i weld erbyn diwedd y tymor ac y bydd disgyblion y cyfnod Sylfaen yn gweithio ar ddatrys problemau syml yn annibynnol.<br><br>Rydym wedi trefnu i athrawes Ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen i fonitro'r cynlluniau ac i roi arweniad ar y mathau o weithgareddau rydym yn ei cyflwyno i'rplant. Bydd yr ymweliad yn cael ei gynnal Dydd Iau, 26ain o Fawrth.<br><br>**Rydym yn dod i'r farn fod y cynlluniau yn dechrau datblygu ac yn cynnwys rhai gweithgareddau ymestynnol ar gyfer digyblion hynnaf y dosbarth. Ceir tystiolaeth o ddatrys problem yn y cynlluniau a gwelir fod y fframwaith yn weithredol. Rydym fel athrawon yn teimlo wrth gynnwys y fframwaith rydym yn gallu sicrhau ein bod yn ymestyn pob plentyn i'r hyn sydd yn ofynnol. Pan fo plentyn yn gweithio ar lefel uwch rydym yn sicrhau fod y cynlluniau yn cynnwys gweithgareddau rhifedd sydd yn ymestyn disgyblion yn briodol gan gynnwys rhai mwy abl.**<br>**Ceir tystiolaeth gan ddisgyblion 5 a 6 o gyfleoedd I ddisgyblion ddatrys problem a gweithio'n annibynnol. Rydym yn dechrau datblygu disgyblion ym mlwyddyn 3 a 4 I weithio ar dasg yn fwy annibynnol. Gwelir peth tystiolaeth.**<br>**Yn y cyfnod Sylfaen, gwelwyd tystiolaeth o ddatrys problem syml e.e. gyda arian.** | Portffolio Mathemateg yn dangos lefelau<br>Proffiliau unigol. |

| | |
|---|---|
| **Rhaid gwneud yn siwr fod yr unigolyn yn dod yn hyderus I weithio ar ben ei hun, heb fod yn or ddibynnol ar yr athrawes. Gan fod y niferoedd yn fach yn y cyfnod Sylfaen, tuedd I weld y sgiliau yn cael ei datblygu ar y cyd. Hoffwn weld yn y cynlluniau fod palnt abl a thalentog sydd yn y derbyn yn cael eu gwthio.** | |
| Rydym wedi dadansoddi canlyniadau profion ym mis Medi ac wedi adnabod unigolion oedd yn tan gyrraedd ac wedi sicrhau fod cefnogaeth ar gael iddynt yn rheolaidd drwy raglenni ymyrraeth megis Dyfal Donc. Rydym yn cadw cofnod manwl o ddatblygiad pob disgybl drwy INCERT ac yn trafod y targedau gyda'r rhieni ar nosweithiau rhieni dwy waith y flwyddn.<br><br>Rydym yn y broses o asesu darnau o waith y disgyblion I brofffil unigol. Ceir tystiolaeth gadarn o lefel 4 a lefel 5 yn eu gwaith.<br><br>Rydym yn dilyn polisi adborth Mathemateg , lle mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r defnydd o oleadau traffig wrth farcio ac ymateb I'w gwaith. Gwelir y Polisi. Darperi'r y lliwiau hyn trwy'r ysgol.<br>Mae'r disgyblion hynnaf yn hyderus I asesu gwaith eu huanian ac I roi barn am eu gwaith drwy liwio lliw o'r goleadau traffig. Ac ambell waith I osod targed ar gyfer gwella.<br>Gosodir targedau I bob unigolyn.<br>Er fod y cymhorthydd wedi bod ar hyfforddiant Dyfal Donc Rhifedd, wrth fonitro y ddarpariaeth, mae'n teimlo eu bod angen mwy o arweniad ar y mathau o weithgareddau sydd yn briodol I bob disgybl. Nid yw'r rhaglen yn rhoi gweithgareddau. Rydym wedi rhoi peth arweniad ac wedi dangos y mathau o weithgareddau posib. Rydym wedi trefnu I athrawes arbenigol ADY o ysgol arall dodd draw I'r ysgol am ½ diwrnod I gydweithio gyda'r cymhorthydd. | Ffeil Rhifedd – canlyniadau profion.<br>Dadansoddi'r profion<br><br>Cofnod o gynydd ffeil Dyfal DOnc<br><br>Adroddiad Monitro<br>Arsylwi ar y cymhorthydddion yn gweithredu'r cynllun.<br><br>INCERT<br>Proffiliau unigol<br>Polis Mathemateg<br>Polis RHifedd<br>Polisi Adborth ar Fathemateg<br>Llyfrau plant / disgyblion<br>Llyfrau mawr<br>Arddangosfeydd |
| Rhoddwyd arweniad I benaethiaid Ysgol I Ysgol ar gynllunio trwy ddangos yr hyn yr ydym ni yn ei wneud I gynllunio'n drawsgwricwlaidd , dangoswyd ein ffeil gynllunio cyfredol a dangoswyd sut yr ydym yn cynllunio'n wythnosol ar gyfer ystod oedran ac ar gyfer galluoedd gwahanol.<br>Dangoswyd enghreifftiau o waith disgyblion oedd wedi gweithio ar dasgau datrys problem – matiau mathemateg. | E bost<br>Cofnod Ysgol I Ysgol gan y Pennaeth |

| | |
|---|---|
| Aethpwyd trwy'r brosoes o gofnodi a'r defnydd a wneir o gardiau problem I'w cynhorthwyo wrth ymateb I dasg. Dangoswyd enghreifftiau o adnoddau a ddefnyddir ar draws yr ysgol megis llyfrau trafod a datrys, problemau geiriol BEAM, gemau bwrdd a ddefnyddiwyd, gem 24., poblemau ar ddechrau dydd, cynllun Came a Lets Think, .<br><br>Rhannwyd y llyfryn I rieni Cymorth gyda Mathameteg gyda'r penaethiaid. Soniwyd hefyd am CD Carol Ayres, fod llawer o weithgareddau megis Numicon arno.<br>Derbyniwyd e bost gan y penaethiaid yn diolch am yr arweniad. Nid oes cyfarfod pellach wedi ei drefnu, y gobaith fuasai wedi gallu rhannu arferion da gyda'n gilydd. | Lalyfr rhieni Mathemateg |
| Ceir adroddiadau arsylwi gwersi , adroddiadau monitro cynlluniau a chraffu ar lyfrau gan y cydlynydd . yn nodi fod y cynlluniau CA2 yn cynnwys gweithgareddau heriol ar gyfer datrys problemau ac yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer bron pob anghenion n ein dosbarth. Angen sicrhau ein bod yn cynllunio'n arbennig ar gyfer y disgyblion sydd yn fwy abl. Gwneud mwy o ddefnydd o NACE. Rhannu arfer dda ac ysgol sydd wedi datblygu hyn yn bellach . Angen arweniad pellach ar hyn.<br>Yn ddiweddar rhannwyd gyda'r dalgylch enghraifft o Broffil Unigol Lefel 5 .<br><br>Ceir adroddiad crynodol gan y cydlynydd yn datgan fod rhifedd yn dechrau datblygu ar draws y Cyfnod Sylfaen. Disgyblion yn dechrau dod yn fwy hyderus wrth ymdrin a phroblemau a cwestiynnau. Disgyblion yn dechrau datblygu I ddangos sut maent yn gweithio allan drwy ddefnyddio'r strategaethau gwahanol. Ceir tystiolaeth yn y proffiliau o waith ar lefel 4 a 5. | Ffeil hunan arfarnu – adroddiadau monitro<br>Adroddiadau Panel Cwricwlwm.<br>Cynlluniau<br>Proffiliau Unigol. |
| Camau I'w datblygu :<br>Cynlluniau I gynnwys y fframwaith<br>Mapio'r gweithgareddau Trawsgwricwlaidd I'r cynllun.<br>Mwy o weithgareddau datrys problem yn y Cyfnod Sylfaen<br>Plant y Cyfnod Sylfaen yn derbyn profiadau yn annibynnol a chwarae gemau I gefnogi'r hyn maent yn eu wybod.<br>Datblygu proffiliau | . |

PA MOR DDA YW'R DDARPARIAETH?
***BLAENORIAETH 3:***

CYFRANIAD AT GODI SAFONAU
*Llythrennedd*
